WG35. S. 133

# MARWNAD,

ER COFFADWRIAETH AM

# RICHARD MORGAN,

O DREF LLANTRISANT, SWYDD FORGANWG,

*Yr hwn a fu Farw Gorphenaf 7ed,* 1854, *yn* 83 *Mlwydd Oed, wedi bod dros* 53 *o Flynyddoedd yn Milwrio dan faner ei Arglwydd Iesu Grist, gyda y Methodistiaid Calfinaidd; bu hefyd yn flaenor* 30*ain o Flynyddoedd.*

---

1.

Pa beth yw y galar a'r gruddfan,
Sydd trwy dref Llantrisant o'r bron ?
Pa beth yw yr achos fod Seion,
Yn drwm ac mor bruddaidd ei bron?
Yr achos mi draethaf yn uniawn,—
Yr angau a'i gerbyd a ddaeth,
A chipio o'n plith, y ffyddlonaf
Yn ngwinllan yr Iesu a wnaeth.

2.

Mae galar yn awr yn gorlenwi
Ei deulu, a Seion i gyd,
Gwaith colli eu Blaenor, ŵr tirion,
Mae 'r awrhon yn mhlith y rhai mud ;

X2053122224

Lle nad oes dim gwaith na dychymyg,
  Gan neb man lle gorwedd efe,
Mae 'i enaid yn mhlith y Seraphiaid,
  Yn derbyn hyfrydwch y Ne.'

3.

Yr oedd Richard Morgan yn ddiwyd,
  Yn holl gylchoedd crefydd i gyd,
Y Suliau, y gwyliau, a'r wythnos,
  Cymhellai y dyrfa mewn pryd;
Gan ddweyd am yr Iesu 'n Waredwr,
  I'r mwyaf ei bechod a ga'd,
A rhinwedd yn ngwaed y Mesiah,
  Rhydd iddo yn hollol iachâd.

4.

'Rwy 'n cofio er pan oeddwn ieuanc
  Yn dysgu pennodau, gwir yw,
Cynghorai fi ddysgu ychwaneg
  Am Iesu, ei briod, a'i Dduw;
Nes ydoedd fy meddwl yn tanio
  Pan oedd ef yn son am y gŵr
A gadwodd ei enaid yn ddiogel,
  Pan oedd yn nyfnderoedd y dwr.

5.

Yr oedd Richard Morgan yn hyddysg,
  Yn holl athrawiaethau y gair,
Am drefn yr arfaeth drag'wyddol,
  A'r bachgen a aned o Fair;
Am ethol a threfnu er cadw
  Rhyw dyrfa na's gwyr neb ei rhi,
A'r iawn a roed dros yr holl bobloedd
  Gan Iesu ar ben Calfari.

6.

Nid oedd yn rhy ffraeth ei ymadrodd
  Un amser tra bu dan y Nef,
Ond distaw a thawel iawn ydoedd,
  Yn rasol ei eiriau 'r oedd ef ;
Pan byddai yn prudd ocheneidio,
  Yn achos y truan a'r gwan,
Am nerth iddynt redeg eu yrfa,
  Yn dawel dadleuai o'u rhan.

7.

Os byddai i'r gwan ddweyd ei brofiad,
  Pwy fyddai mor barod ag e ?
Fe fedrai yn rhwydd gydymdeimlo
  A'r gwanaf a fyddai 'n y lle ;
Fe dd'wedai am freichiau 'r Iehofah,
  Sydd nerthol i gynal y gwan,
Nes dyfod a'r gwanaf yn Israel,
  O'r dyrus anialwch i'r lan.

8.

Ei lygaid oe'nt graffus bob amser,
  A'i ddeall oedd yn oleu iawn ;
Fe borthodd y defaid yn Seion,
  A'r ŵyn o foreuddydd hyd nawn ;
Cymhellai y clâf at y meddyg,
  A'r dyn hunan gyfiawn i dd'od
I'w wisgo a gwisg y Messiah,
  Nad oes dim o'i bath hi yn bod.

9.

Fe gafodd yn niwedd ei yrfa,
  Gysuron oedd yn gryfion iawn,

Fe ganodd am rinwedd y cariad,
  Pan dynai i ben ei brydnawn ;
Fe dd'wedodd fod ganddo gyfamod,
  A hwnw yn gadarn mewn hedd,
Wnaed rhyngddo â'r Iesu, Ei Arglwydd,
  Na thorir gan angeu na'r bedd.

10.

Ychydig cyn iddo ymadael,
  Fe ganodd yn dawel, mae 'n syn !
Dros dair awr yn gyfan fel dywed
  Y tystion a'i clywsant pryd hyn !
Terfynu ei daith a wnaeth yma,
  Dan ganu am ddwr ac am waed,
Ddylifodd o ystlys yr Iesu,
  Lle cafodd yn berffaith iachâd.

11.

Ymadael rhaid ini hyd fore
  Daw Seion o'i rhwymau yn rhydd,
Pan ddelo y teulu yn gryno,
  Yn iachus o wely o bridd ;
Pan byddo 'r Archangel yn bloeddio,
  Bydd cyfnod yr wylo ar ben,
Cawn beraidd gyd chwareu telynau
  Dros byth ; Haleliwia, Amen.

Rees Lewis, Argraffydd, Heol-Fawr, Merthyr.